

# Adrodd am achosion troseddol a rheoliadol yn y DU a thu allan i'r DU

**1** Yn *Arfer meddygol da*,\* rydym yn nodi:

- 75 Rhaid i chi ein hysbysu yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd isod yn digwydd i chi, unrhyw le yn y byd:
  - a rydych wedi cael eich rhybuddio gan yr heddlu neu'ch beirniadu gan ymchwiliad swyddogol
  - b rydych wedi cael eich cyhuddo neu'ch canfod yn euog o gyflawni trosedd
  - c mae corff proffesiynol arall wedi gwneud canfyddiad yn erbyn eich cofrestrriad o ganlyniad i weithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

**2** Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn nodi sut y gall meddygon weithredu'r egwyddorion hyn a'r hyn y dylech ein hysbysu ohono. Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad.

**3** Nid yw'r ddyletswydd i adrodd am achosion troseddol a rheoliadol yn newid yr amgylchiadau lle y bydd CMC yn ymchwilio i ymddygiad meddyg, neu'r trothwy er mwyn gweithredu ynghylch cofrestrriad.

## Yr hyn y bydd yn rhaid i chi adrodd amdano

**4** Rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd isod yn digwydd i chi, unrhyw le yn y byd:

- a rydych yn cael eich canfod yn euog o gyflawni trosedd
- b rydych yn cael eich cyhuddo o gyflawni trosedd
- c rydych yn gwneud cyfaddefiad ffurfiol eich bod wedi cyflawni trosedd (er enghraifft, trwy dderbyn rhybudd,<sup>†</sup> gorchymyn penderfyniad cymunedol, gwarediad dewisol yng Ngogledd Iwerddon neu ddirwy ariannol yn yr Alban, neu thrwy ymrwymo i

\* Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer Meddygol Da* Llundain, CMC.

† Mae hyn yn cynnwys rhybudd amodol dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* neu *Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2011*.

gytundeb cyfleuster datgelu cytundebol gyda Chyllid a Thollau EM, sy'n golygu eich bod yn cyfaddef eich bod wedi cyflawni twyll)

- d** rydych yn derbyn y dewis o dalu hysbysiad cosb am anrhefn yn unol â lefel gosb yr haen uchaf\* (yng Nghymru a Lloegr), hysbysiad cosb dan *Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2011* neu hysbysiad cosb benodedig dan *Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac ati (yr Alban) 2004*†
- e** rydych yn cael rhybudd ynghylch cannabis (yng Nghymru a Lloegr)
- f** rydych yn cael rhybudd oedolyn ffurfiol (yn yr Alban)
- g** rydych yn cael gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol,‡ boed hynny o ganlyniad i achos sifil neu droseddol
- h** cyfyngwyd ar eich cofrestrriad neu fe'ch canfuwyd yn euog o gyflawni trosedd gan gorff meddygol neu gorff rheoliadol proffesiynol arall.

- 5** Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn unrhyw ofynion adrodd y maent mewn grym yn eich sefydliad cyflogi neu gontractio. Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi ddweud neu i bwy y dylech ddweud, dylech ofyn am gyngor gan gorff amddiffyn neu gymdeithas feddygol.

## Yr hyn na fydd angen i chi ddweud wrthym amdano

---

- 6** Ni fydd yn rhaid i chi ddweud wrthym am hysbysiad cosb benodedig am anrhefn oni bai ei fod yn cael ei nodi ym mharagraff 4. Ni fydd talu hysbysiad cosb benodedig am drosedd traffig ffyrdd neu hysbysiad cosb benodedig a gyhoeddir gan awdurdodau lleol (er enghraifft, am droseddau megis cŵn yn baeddu neu sŵn) yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol.

## Dylech geisio cyngor os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth

---

- 7** Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am unrhyw rai o'r materion a nodir ym mharagraff 4, dylech ofyn am gyngor gan gorff amddiffyn neu gymdeithas feddygol, neu gennym ni.

---

\* Mae modd gweld rhestr o droseddau trwy droi at [www.homeoffice.gov.uk/police/penalty-notices/penalty-notice-introduction11](http://www.homeoffice.gov.uk/police/penalty-notices/penalty-notice-introduction11).

† Mae modd gweld rhestr o droseddau yn Rhan 11 *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac ati (yr Alban) 2004*, y mae modd ei gweld trwy droi at [www.opsi.gov.uk/legislation/scotland/acts2004/asp\\_20040008\\_en\\_12#pt11](http://www.opsi.gov.uk/legislation/scotland/acts2004/asp_20040008_en_12#pt11).

‡ Mae'n berthnasol ar draws y DU.